
## Tasg 3

# Chwaraeon cyffrous yn yr ardal

1. Edrychwch ar yr hysbyseb yma:

**Penwythnos o Gemau 'Gwahanol'**
Mawrth 1-3

**Ble:** Ar y maes chwarae ac yn y ganolfan hamdden
**Dechrau:** Nos Wener 18:00
**Gorffen:** Prynhawn Sul: 16:00



**Beth fydd yn digwydd?**
**Dewch i weld – byddwch chi'n cael amser gwych!**

2. Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i gynllunio'r penwythnos o gemau 'gwahanol'.

Trafodwch a gwnewch nodiadau:

- **Beth yn union** fydd yn digwydd?
- **Ble yn union?** (e.e. yn y pwll nofio yn y ganolfan hamdden / ar y cae chwarae / yn y maes parcio wrth y cae chwarae)?
- **Pryd yn union** fydd y digwyddiadau?
- **Y gwobrau?**
- **Dillad** (Oes angen dillad / esgidiau arbennig?)?
- **Gwybodaeth arall.**

Dyma ychydig o help i chi:
Ewch drwy'r pwyntiau bwled, e.e.

| | |
|---|---|
| • **Beth yn union** fydd yn digwydd? | Beth am drefnu ...?<br>Hoffwn i drefnu ...? |
| • **Ble yn union** | Ble fydd y penwythnos yn digwydd?<br>Beth am yn y pwll nofio yn y ganolfan hamdden / ar y cae chwarae / yn y maes parcio wrth y cae chwarae?<br>Rhaid cynnal y nofio yn y pwll nofio. |
| • **Pryd yn union** fydd y digwyddiadau? | Beth am gynnal y penwythnos ar ... ?<br>Beth am gael ... yn y bore / yn y prynhawn / yn y nos? |
| • **Y gwobrau?** | Beth am gael ...?<br>Rhaid cael gwobrau da, er enghraifft ... |
| • **Dillad** | Rhaid gwisgo dillad arbennig, er enghraifft ... |
| • **Gwybodaeth arall.** | Beth am ...? |

**Cytuno ac anghytuno:**

| | |
|---|---|
| Mae ... yn syniad da. | ... is a good idea |
| syniad twp / gwirion / dwl | a silly idea |
| gyffrous | exciting |
| ddiflas | boring |
| beryglus | dangerous |
| Dw i'n meddwl bod ... yn ... achos ... | I think that ... is ... because ... |
| Dw i'n cytuno achos ... | I agree because ... |
| Dw i ddim yn cytuno achos ... | I don't agree because ... |
| Wyt ti'n cytuno? | Do you agree? |
| Ydw, achos ... | Yes, because ... |
| Nac ydw, achos ... | No, because ... |

3. Dwedwch wrth grŵp arall am eich chwaraeon chi, e.e.

**Bydd cystadleuaeth Pooh sticks yn yr afon wrth y maes chwarae ar y nos Wener. Bydd hi'n dechrau am hanner awr wedi chwech a bydd hi'n gorffen am hanner awr wedi saith. Bydd gwobr arbennig – pot mawr o fêl blasus (achos mae Winnie the Pooh yn hoffi mêl!)**

Mewn grŵp, **siaradwch** am y chwaraeon ... **gofynnwch** gwestiynau. **Dwedwch** beth rydych chi'n feddwl o'r chwaraeon.

Mae help i chi ar y dudalen nesaf.

| Geirfa | |
|---|---|
| cynllunio | to plan |
| gwahanol | different |
| yn union | exactly |
| gwobrau | prizes |
| cystadleuaeth | competition |
| mêl | honey |

Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| Bydd ...<br>Bydd pobl yn ...<br>Bydd y cystadleuwyr yn ...<br>Byddan nhw'n ...<br>Byddwn ni'n ... | There will be ...<br>People will ...<br>The competitors will ...<br>They will ....<br>We will ... |
| Fydd ...?<br>Bydd.<br>Na fydd.<br>Fydd pobl yn ...?<br>Byddan.<br>Na fyddan.<br>Fyddan nhw'n ...?<br>Byddan.<br>Na fyddan.<br>Ble fydd ...?<br>Pryd bydd ...?<br>Sut bydd pobl yn ...? | Will there be ...?<br>Yes (there will).<br>No (there won't).<br>Will people ...?<br>Yes (they will).<br>No (they won't).<br>Will they ...?<br>Yes (they will).<br>No (they won't).<br>Where will ...(be)?<br>When will ... (be)?<br>How will people (be) ...? |
| Mae ... yn syniad da.<br>syniad twp / gwirion / dwl<br>gyffrous<br>ddiflas<br>beryglus<br>Dw i'n meddwl bod ... yn ... achos ...<br><br>Dw i'n cytuno achos ...<br>Dw i ddim yn cytuno achos ...<br>Wyt ti'n cytuno?<br>Ydw, achos ...<br>Nac ydw, achos ... | ... is a good idea<br>a silly idea<br>exciting<br>boring<br>dangerous<br>I think that ... is ... because ...<br><br>I agree because ...<br>I don't agree because ...<br>Do you agree?<br>Yes, because ...<br>No, because ... |

4. Ysgrifennwch erthygl ar gyfer papur bro yn sôn am y chwaraeon yma.




| Geirfa | |
|---|---|
| papur bro | community newspaper |

Ewch i'r dudalen nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| | | Teitl da |
| | | • Beth<br>• Ble<br>• Pryd<br>• Beth yn union fydd yn digwydd<br>• Beth fydd y gwobrau?<br>• Dillad<br>• Gwybodaeth arall |

5. Gwahoddwch bartner i'ch gemau chi.

Ydych chi'n cofio sut i wahodd?

Siaradwch am hyn ac ysgrifennwch y patrymau yma:

**Chwarae rôl**

Partner 1: Gwahoddwch eich partner.

Partner 2: Gofynnwch am wybodaeth – ble, pryd, am faint o'r gloch, beth yn union fydd yn digwydd, unrhyw wybodaeth arall? Ydych chi eisiau mynd?

Yna, gwnewch hyn eto, ond y tro yma, rhaid i **Bartner 1** fod yn **Bartner 2** a rhaid i **Bartner 2** fod yn **Bartner 1**.